**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 13eg o Chefror, 2018 am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Olwen Roberts OR,Sianelen Pleming (SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), Gwilym Williams (GW) a William Jones (WJ)

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd** - Croesawyd pawb a oedd yn bresennol.

2. **Ymddiheuriadau –** Cyng. Aled Jones.

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Diweddariadau asedau –** Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor. Cadarnhaodd WJ fod cyflwr mainc Pistyll yn dderbyniol. Nodwyd fod un fainc ym Mhistyll angen sylw. *Y Clerc i weud nodyn atgoffa i WJ edrych arni eto ym mis Mai.*

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd Sara Williams fod cofnodion y 9fed o Ionawr, 2018 yn gywir. Eiliodd William Jones ac fe'u mabwysiadwyd.

5.2 Materion yn codi –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl** – Mae'r gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau ac awdurdodwyd y Clerc i dalu'r anfoneb.

5.2.2 **Y Ffordd heibio Gors Lwyd** - Adroddodd y Clerc i'r Cyngor Sir gadarnhau fod y safle mewn golwg o fewn awdurdodoaeth yr Adran sy'n gyfrifol am lwybrau cyhoeddus. Mae Swyddog o'r Adran honno wedi cadarnhau fod ganddo gyfarfod safle i drafod y mater gyda Swyddog o Ymgynghoriaeth Gwynedd dydd Gwener y 16eg o Chwefror. *Os yw'r Swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfod safle yn fodlon y Clerc i drefnu i gynrychiolaewth o'r Cyngor Cymuned i fod yn bresennol hefyd.*

5.2.3 **Mynwent Pistyll –** Nodwyd fod y gwaith o atgyweirio'r wal wedi cychwyn. Bydd angen adolygu'r yswiriant pan y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.
Adroddodd WJ fod cynrychiolydd o 'Natural Retreats' am holi os yw'r cwmni mewn sefyllfa i fod o gymorth i gynnal a chadw'r fynwent. *Y Clerc i yrru llythyr yn diolch am y cynnig a sôn am y math o waith sydd ei angen yn y fynwent, e.e. cynnal a chadw a chodi'r waliau. Mae i ofyn iddi gysylltu gyda WJ.*

5.2.4 **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -***Y Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

5.2.5 **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Adroddodd y Clerc iddo yrru llythyr o gŵyn ar y 17 o Ionawr. Cylchredwyd copi ohonno i'r Aelodau er gwybodaeth. Derbynwyd cadarnhad iddo gael ei dderbyn a nodwyd y byddai'n cael ei yrru ymlaen i sylw yr Arolygydd Gethin Jones, sy'n gyfrifol am Ardal De Gwynedd. Yn ddiweddarach, derbyniodd neges ar ei beiriant ateb gan Elizabeth Jones, y Swyddog Cefnogi Cymuned Lleol. Gan nad oedd geiriad ei neges yn eglur gyrodd neges e-bost yn gofyn iddi egluro beth oedd ganddi mewn golwg. Nid oedd ymateb i law erbyn y cyfarfod. Cynigiodd LJ fod y Cyngor yn dilyn y llythyr I fyny mewn da bryd fel bod ymateb mewn llaw ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu ar y penderfyniad*.

5.2.6 **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll -** Adroddodd y Clerc iddo ymgynghori gyda Mr John Dilwyn Williams a awgrymodd iddo gysylltu gyda Tîm AHNE Llŷn rhag ofn fod y gwaith ymchwil wedi'i wneud eisioes. Cysylltodd â Bleddyn Prys Jones a nododd nad oedd eu prosiect hwy yn edrych ar Ward Cyngor Cymuned Pistyll yn benodol. Serch hynny mae wedi addo rhannu copiau o unrhyw fapiau hanesyddol perthnasol sydd ganddo â'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd fod mapiau y gellir eu hastudio yn yr Archifdy. *Gan hynny mae'r Clerc am fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio pan y bydd amser yn caniatau.*

5.2.7 **Tir Comin** - Nododd y Clerc iddo sicrhau nifer o Nodiadau Tesun Cyfreithiol NALC ynglyn a Thir Comin. Mae Un-Llais Cymru'n fodlon bod o gymorth pe byddai gan y Cyngor ymholiadau wrth fynd trwy'r ddogfennaeth sydd mewn llaw. *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Tir Comin yn lleol.*

5.2.8 **Iechyd a Diogelwch -** Cyflwynodd y Clerc Gynllun Gweithredu. Cynigiodd GJ i'r Cyngor ei dderbyn. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. Arwyddwyd y Cynllun Gweithredu gan y Cadeirydd. Y Clerc i symud y cynllun yn ei flaen.

5.2.9 **Pont Bryn Celyn –** Adroddwyd fod y gwaith a dynwyd i sylw'r Cyngor Sir wedi'i gwblhau. *Gofynwyd i'r Clerc yrru llythyr yn nodi gwerthfawrogiad y Cyngor ond yn gofyn os y galllai'r Cyngor Sir fynd i wraidd y broblem.)*

5.2.10 **Dyfynbrisiau barbio Mynwent Pistyll –** *Gofynwyd i'r Clerc wneud nodyn atgoffa i GW gael dyfynbrisiau ar ôl i pa gymorth a fyddai gan Natural Retreats yn ei gynnig ddod yn amlwg.* (Gweler eitem 5.2.3 uwchlaw.)

5.2.11 **Cyswllt Band Llydan –** Nododd WJ iddo fynychu cyfarfod Agored ynglyn a'r mater. Penderfynodd y Cyngor drafod y mater yn y dyfodol onibai y bydd y datrysiadau a drafodwyd yn y Cyfarfod Agored yn cael eu gwireddu.

6. **Canolfan Llithfaen –** Dyma'r prif faterion a eglurwyd gan Uned Gyfreithiol y Cyngor Sir ynglyn a'r Brydles ddrafft yn ddiweddar -

6.1Mae gan y Cyngor Cymuned yr hawl i ddychwelyd y Ganolfan i ddwylo'r rhydd-ddeiliaid, ar ôl blwyddyn 1af y Brydles os rhoddir 3 mis o rybudd, yn unol â thelerau'r Brydles.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

*Y Clerc i ofyn wrth yr Uned Gyfreithiol ple yn union mae'n dweud hyn ar y Brydles ddrafft*
*ac yna trafod ymhellach gyda Chyfreithiwr y Cyngor fel y bo'r angen. Checio'r geiriad hefo'r Aelodau cyn cysylltu gyda'r Cyfreithiwr*
Mae hyn yn amodol ar feddiant gwag ac mae'n rhaid i'r Is-brydles ddod i ben yr un dyddiad. Mae'r hyn yn berthnasol pwy bynnag yw'r rhydd-ddeiliaid.

6.2 Cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, fel landlord, ydyw i oruchwylio Pwyllgor y Ganolfan.

6.3 Ni all y Cyngor Sir roi cynllun sy'n nodi lleoliad draeniau a phibellau cyflenwi dŵr i'r Cyngor Cymuned. Dylai'r Cyngor Cymuned baratoi Ymchwiliad Dŵr a Thraeniad os yw eisiau rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn. *SP am edrych i mewn i hyn ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.*

6.4 Nid oes unrhyw hawliau penodol o ran mynediad a hawddfreintiau yn y teitl. Mae Adran Eiddo y Cyngor Sir yn edrych i mewn i fanylion trwydded neu gytundebau ar gyfer parcio ar safle'r Ganolfan. Efallai y bydd angen ychwanegu cymal i'r Brydles.
Mae'r Cyngor Cymuned eisiau'r mater yma wedi'i ddatrys cyn symud ymlaen. *Y Clerc i ofyn i Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir ymgynghori gyda'r Adran Eiddo. Pwysau a'r Dy'r Ysgol am ymateb.Y Clerc hefyd i ofyn iddynt am gopiau o ôl weithredoedd y Ganolfan. Y Clerc i holi os oes ffi am hyn yn gyntaf.*

6.5 Roedd ymateb y Cyngor Sir yn atgoffa'r Cyngor Cymuned y dylent ymofyn cyngor cyfreithiol annibynnol mewn perthynas â'r Brydles cyn symud ymlaen â hi.

7. **Sedd Wag –** Mae'r Cyngor wedi wedi bodloni'r canllawiau ar gyfer cyfethol ond heb lenwi un o'r seddi oedd yn wag ar ôl etholiad 2017. Nid yw wedi bod yn ymarferol i lenwi'r swydd sydd heb ei llenwi eto. *Yr Aelodau i ddod ymlaen gyda enwebiadau.*

8. **Ceisiadau Cynllunio –** Dim.

9. **Penodi Aelod fel Swyddog Rheoli Data –** Cynigiodd SP fod LJ yn ymgymryd a'r gwaith. Eiliodd GW a chytunodd pawb. Derbyniodd LJ y rôl.

10. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw –**

10.1 **Problem ddŵr yng ngwaelod lôn Rhosydd –** *Gofynwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod Safle ar gyfer Swyddog perthnasol y Cyngor Sir GJ ac Alwyn Roberts, Llithfaen Isaf.*

11. **Gohebiaeth -**

11.1 **Gwynedd Ddigidol: Mynediad i bawb -** Tynodd y Clerc sylw'r Cyngor at y cynllun sy'n darparu offer technoleg gwybodaeth i leoliadau cymunedol.

11.2 **Aelodau ar Fforwn Mynediad Dwyfor/Arfon -** Adroddodd y Clerc fod cyfle i aelodau'r Cyngor wneud cais i fod yn aelod o Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor. Ni roddwyd enw ymlaen.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

11.3 **Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd -** Cyflwynwyd y ddogfen ymgynghorol.

11.4 **Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn -** Ym mis Mai 2018 bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn cyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol terfynol ar gyfer Gwynedd a Môn. Maent yn ymgynghori ar eu fersiwn drafft hyd at y 30ain o Fawrth. Gall y Cyngor fwydo eu hadborth trwy lenwi holiadur a gylchredwyd. Cynigiodd JO fod y Clerc yn ymateb i'r holiadur, os oes angen, ar ran y Cyngor Cymuned. Eiliodd SP. Cytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

11.5 **Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol -** Adroddwyd fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi wedi datblygu fersiwn gyntaf Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau, mewn cydweithrediad ag ystod o randdeiliaid, i gynorthwyo'r sector cyhoeddus ac eraill i gyflawni prosiectau a seilwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan y rhai hynny sy'n ystyried yr angen am brosiectau seilwaith ac wrth gynllunio dylunio a darpariaeth.

11.6 **Arolwg ar-lein Cyfoeth Naturiol Cymru -** Nodwyd fod y cyfnod byr o ymgynghori wedi dod i ben.

11.7 **Timau Adnoddau Cymunedol -** Nododd y Clerc fod Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor Sir wedi sefydlu timau integredig ar draws maes gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol (gwasanaethau fel nyrsys cymunedol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a dietegyddion). Cynigiodd LJ fod y manylion cyswllt i'w harddangos naill a'i yn y Ganolfan neu hysbyswfwrdd y pentref. Eiliodd SP a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

11.8 **Digwyddiad Ymgysylltu Panel Adolygu Annibynnol sy'n adolygu'r Sector Gynghorau Tref a Chymuned -** Adroddodd y Clerc fod digwyddiad ymgysylltu yng Nghaernarfon rhwng 12:00 a 15:00 ddydd Mawrth y 6ed o Fawrth. *Gofynwyd i unrhw Aelod/Aelodau hysbysu'r Clerc os yr ydynt yn dymuno mynychu fel y gall rannu'r manylion â hwy.*

11.9 **Llais Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru -** Cylchredwyd copi ar e-bost ac roedd copi ar gael ar y noson.

11.10 **Papurau ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad i e-bost -** Roedd pecyn o'r papurau yma ar gael i'r rhai perthnasol eu gweld ar y noson. Ni chafwyd sylwadau am y cynhwysion.

12. **Cyllid –**

12.1 **Lwfansau Aelodau-** Nododd y Clerc fod Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19 wedi ei gyhoeddi. Esboniodd fod copi ar gael ar http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/financial-year-2018-19/?skip=1&lang=cy. Disgwylir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud Ynglyn a thalu

lwfansau i Aelodau y mis yma. Gallai y bydd oblygiadau i gyllideb 2018/19 pe byddai argymhellion y Panel yn cael eu mabwysiadu. Y Clerc i gylchredeg y linc i'r adroddiad i'r Aelodau.

11.3 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

£185.00 Eurwyn Griffith (Cyflog a threuliau Rhagfyr)
£185.00 Eurwyn Griffith (Cyflog a threuliau Ionawr)
£224.55 Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Allanol 16/17)
£75.00 J D Roberts (Archwilio Mewnol 16/17)
Llogau Cyfrif Cadw £0.21
Balans yn y Banc:
Cyfredol £5400.22
Cadw £2144.38

11.4 **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | |
|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 |
| D. E. Williams (Gwelliannau) | £144.00 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 13eg o Fawrth, 2018am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347